# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnod o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Awst, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd W.T.Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Raymond Jones, R.O.Jones, Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm (Rheoli Datblygu) (NJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Ann Griffith, T.Victor Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Aelod Lleol) |

---

**1. 41C125B/EIA/RE - Cais llawn i adnewyddu'r adeiladau presennol, dymchwel yr estyniad cyswllt ynghyd â chodi estyniad deulawr yng Nghanolfan Gymuned Jesse Hughes, Caergybi.**

Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2014 i ymweld â'r safle fel y gall Aelodau asesu'r sefyllfa o ran traffig yn ardal y cynnig a'r cyffiniau.

Cafodd yr Aelodau olwg ar y safle a'r lonydd cyfagos.

**Y Cynghorydd W.T.Hughes**
**Cadeirydd**